Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

Heddlu Police
DYFED-POWYS

**Mr. Mark Collins**
**Prif Gwnstabl / Chief Constable**

Pencadlys Heddlu Dyfed-Powys, Blwch Post 99, Llangynnwr, Caerfyrddin, SA31 2PF.
Dyfed-Powys Police Headquarters, PO Box 99, Llangunnor, Carmarthen, SA31 2PF.

• Ffôn/Tel : 01267 226325
• Ffacs/Fax : 01267 222185
• E-bost/E-mail :

Eich cyf/Your ref :

Ein cyf/Our ref :
Gofynnwch am/Please ask for :

I Dafydd Llywelyn,

Comisiynydd Heddlu a Throseddu,

Yn dilyn yr Archwiliad Cyfanrwydd Data Troseddu diweddar Arolygaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi ar Heddlu Dyfed Powys rydym wedi derbyn adroddiad yn cynnwys canfyddiadau'r tîm.

Mewn ymateb i'r adroddiad hwnnw gallaf eich cynghori fel a ganlyn:

Rwyf yn falch gyda'r cynnydd cyffredinol y mae'r Heddlu wedi ei gyflawni o ran cofnodi trosedd. Gellir dangos y gwelliant hwn drwy'r cynnydd yn ein cyfradd gofnodi gyffredinol sydd wedi codi o 68% yn 2014 i 87.8% yn 2018.

Yn dilyn yr archwiliad diweddar cafodd yr Heddlu ei raddio'n "dda" mewn dau faes. Yn benodol am fod â systemau a gweithdrefnau effeithlon i gefnogi'r Heddlu wrth gofnodi trosedd yn gywir a hefyd am yr arweiniad a'r diwylliant sydd ei angen i gyflawni'r safonau troseddu cenedlaethol ar gyfer cofnodi troseddu. Amlygodd yr adroddiad hefyd fod yr Heddlu'n dda o ran cofnodi troseddau rhyw a throseddau cymhleth eraill, fel Caethwasiaeth Fodern.

Mae'r gwelliannau arwyddocaol hyn wedi eu cyflawni o ganlyniad i newidiadau a weithredwyd o fewn yr heddlu, gan gynnwys adolygu trefniadau llywodraethu, trosglwyddo hyfforddiant i swyddogion rheng flaen a chreu gallu ychwanegol i archwilio o fewn tîm Cofrestrydd Troseddu'r Heddlu. Wrth gyflwyno Tîm Dyrannu Digwyddiadau a Throseddau (ICAT) rydym wedi symud tuag at gofnodi trosedd ar y pwynt cyswllt ac rwyf yn credu bod modd ehangu ymhellach niferoedd y digwyddiadau y maent yn ymdrin â hwy.

Bydd argymhellion archwiliad Arolygaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi, fel y nodir isod, yn cael eu gweithredu'n llawn ac yn cael eu monitro gan y Dirprwy Brif Gwnstabl, dan y Grŵp Defnyddwyr Cofnodi Troseddu Strategol.

• Cymryd camau i adnabod ac ymdrin â bylchau yn eu systemau a'u prosesau ar gyfer adnabod a chofnodi pob cofnod o drosedd treisgar (yn benodol y rhai hynny sy'n ymwneud â cham-drin domestig);
• Sicrhau bod swyddogion a staff yn cwblhau asesiadau Cam-drin Domestig, Stelcian ac Aflonyddu (DASH) ym mhob achos o gam-drin domestig;
• Sicrhau bod goruchwyliaeth ddigonol yn cael ei roi ym mhob penderfyniad cofnodi trosedd a wneir gan swyddogion a staff; a
• Sicrhau bod pob trosedd a ganfuwyd yn cael ei gofnodi heb oedi ac ym mhob achos o fewn 24 awr.

Gallaf ddarparu sicrwydd fod gwaith wedi cychwyn ar y meysydd hyn, a bod peth o'r gwaith hynny mewn lle cyn cyhoeddi'r adroddiad, yn benodol yr argymhellion yn canolbwyntio'n arbennig ar achosion o gam-drin domestig. Cafwyd cynnydd mewn goruchwyliaeth o ran digwyddiadau, ac mae archwilio yn y maes hwn wedi ei flaenoriaethu. Rydw i hefyd wedi gosod Cyfarwyddwr Cynorthwyol i arwain prosiect i wella ein hymateb i achosion o gam-drin domestig yn gyfannol a bydd hyn yn cynnwys y swyddogaeth gofnodi a chwblhau asesiadau Cam-drin Domestig, Stelcian ac Aflonyddu (DASH). Rwyf yn benderfynol bod dioddefwyr cam-drin domestig yn cael y gwasanaeth gorau a bod ganddynt yr hyder i adrodd am faterion i'r heddlu.

Mae Cofrestrydd Troseddu'r Heddlu hefyd yn datblygu cynnyrch i wella gwybodaeth rheng flaen o safonau cofnodi troseddu ac yn canolbwyntio ar feysydd lle mae camgymeriadau wedi eu gwneud o ganlyniad i ddiffyg ymwybyddiaeth. Mae'r rhain yn cynnwys troseddau aflonyddu, ymosod cyffredin, cyfathrebiadau maleisus a threfn gyhoeddus.

Rydw i hefyd wedi fy ymrwymo i ehangu rhychwant y Tîm Dyrannu Digwyddiadau a Throseddau (ICAT) er mwyn sicrhau fod mwy o droseddau'n cael eu cofnodi ar y pwynt cyswllt, a fydd yn arwain at welliant o ran cofnodi troseddau ar unwaith ac yn ddi-oed.

Fel heddlu, rydym wedi ein hymrwymo i wella ein perfformiad yn y maes hwn.

Yn gywir,



Y Prif Gwnstabl Mark Collins